***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 746

# Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

## RHAN 4

DIWYGIO'R RHEOLIADAU MAETHU

**Diwygio rheoliad 24 o'r Rheoliadau Maethu — sefydlu panel maethu**

**24.**—(1) Diwygir rheoliad 24 o'r Rheoliadau Maethu fel a ganlyn:

(2) Ym mharagraff (3)(b)(i) ar ôl 'unigolyn hwnnw' mewnosoder "neu gyflogai'r asiantaeth sy'n ymwneud â rheolaeth yr asiantaeth neu, pan nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, person arall (nad oes rhaid iddo fod yn gyflogai'r asiantaeth) sydd â phrofiad o ddarparu gwasanaeth maethu".

(3) Yn lle paragraff (6) rhodder—

"(6) Yn ddarostyngedig i baragraffau (6A) a (6B)—

(a) caiff aelod o banel maethu ddal ei swydd am gyfnod na fydd yn hwy na thair blynedd; a

(b) ni chaiff neb ddal swydd fel aelod o banel maethu yr un darparydd gwasanaeth maethu am fwy na thri thymor heb gyfnod cyfamserol".

(4) Ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(6A) Pan fo —

(a) aelod o'r panel maethu yn dal swydd fel aelod o'r panel maethu hwnnw yn unol â pharagraff 3(b)(i) ac yntau yn ei ail dymor mewn swydd yn olynol fel aelod o'r panel maethu hwnnw; a

(b) y tymor mewn swydd hwnnw i fod i ddod i ben ar neu ar ôl 2 Ebrill 2010, caiff yr aelod hwnnw barhau i ddal swydd fel aelod o'r panel maethu hwnnw am gyfnod pellach na fydd yn hwy na 12 mis.".

(5) Ar ôl paragraff (6A) mewnosoder—

"(6B) Pan fo tymor mewn swydd aelod o banel wedi ei estyn am gyfnod pellach o dan baragraff (6A) a'r aelod hwnnw o'r panel yn cael ei benodi am drydydd cyfnod mewn swydd heb gyfnod cyfamserol, ni chaiff y tymor mewn swydd hwnnw fod yn hwy na chyfnod o dair blynedd llai cyfnod sy'n hafal i'r estyniad a wnaed i'r ail gyfnod.

(6C) At ddibenion paragraffau (6) a (6B), ystyr "cyfnod cyfamserol" ("intervening period") yw cyfnod di-dor o dair blynedd o leiaf, pan nad oedd yr unigolyn dan sylw, drwy gydol y cyfnod, yn aelod o'r panel maethu.".